
Lleolrwydd ar radio masnachol

Ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban

DATGANIAD

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mawrth 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cefndir	3
3. Ymgynghoriad a chasgliad	7

Atodiad

A1. Map o'r ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban	16
A2. Ardaloedd cymeradwy yn ôl trwydded	17

1. Trosolwg

Os oes gofyn i orsaf radio analog fasnachol leol ddarlledu cyfran o raglenni sydd 'wedi cael eu gwneud yn lleol', rhaid iddi wneud hynny o leoliad yn yr ardal y mae'n darlledu iddi, neu o rywle arall mewn ardal sydd wedi'i chymeradwyo gan Ofcom. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau ar ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban.

Yr hyn rydyn ni wedi'i benderfynu

Rydyn ni wedi cymeradwyo'r canlynol:

- dwy ardal yn yr Alban – gogledd yr Alban a de'r Alban;
- Cymru gyfan fel un ardal gymeradwy (edrychwch ar y map yn Atodiad 1).

Bydd y penderfyniadau hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i orsafoedd radio analog masnachol lleol yng Nghymru a'r Alban o ran lle maen nhw'n gwneud yr oriau gofynnol o raglenni 'sydd wedi cael eu gwneud yn lleol'. Hefyd, dylai hyn wella eu gallu i ddarparu gwasanaeth sy'n berthnasol i'r ardal leol y maen nhw'n darlledu iddi.

- 1.1 Mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod gorsafoedd radio masnachol analog (hy FM ac AM) lleol yn darparu nifer priodol o'r canlynol:
 - rhaglenni sy'n cynnwys deunydd lleol;
 - rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol.
- 1.2 Mae'r gyfraith yn caniatáu i raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol gael eu gwneud naill ai o leoliad yn yr ardal y mae'r orsaf fasnachol leol yn darlledu iddi, neu o rywle arall mewn ardal ehangach sydd wedi cael ei chymeradwyo gan Ofcom (sef 'ardal gymeradwy').
- 1.3 Yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol ar gynigion newydd ym mis Mehefin 2018¹ ('yr Ymgynghoriad Cyntaf'), ym mis Hydref 2018, fe wnaethon ni gyhoeddi datganiad a dogfen ymgynghori arall² (mae'r ddogfen hon yn cyfeirio atyn nhw fel 'Datganiad' ac 'Ail Ymgynghoriad', fel sy'n berthnasol). Roedd y Datganiad yn gwneud penderfyniadau ynghylch y canllawiau lleolrwydd³ a'r ardaloedd cymeradwy ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r Ail Ymgynghoriad yn nodi cynigion i gadw'r sefyllfa bresennol yng nghyswllt yr ardaloedd cymeradwy yn yr Alban, ac i fabwysiadu ardaloedd diwygiedig yng Nghymru, yng ngoleuni'r ymatebion roedden ni wedi'u cael i'r Ymgynghoriad Cyntaf.

¹ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/115181/lleolrwydd-radio-masnachol.pdf

² <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/guidelines-localness-commercial-radio>

³ <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/localness>

Datganiad: Lleolrwydd ar radio masnachol

- 1.4 Ar ôl ystyried yr 18 ymateb i'r Ail Ymgynghoriad yn ofalus, yn ogystal ag ystyried ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyntaf ar y pwnc penodol hwn, rydyn ni wedi penderfynu cymeradwyo'r ardaloedd canlynol:
- Yn yr Alban – Gogledd yr Alban a De'r Alban
 - Yng Nghymru – Cymru.
- 1.5 Caiff yr ardaloedd cymeradwy newydd hyn ar gyfer Cymru a'r Alban eu dangos ar y map yn Atodiad 1 a'u nodi (drwy restru'r ardal gymeradwy ar gyfer pob trwydded leol) yn Atodiad 2 y datganiad hwn.

2. Cefndir

Y gofynion statudol

- 2.1 Mae Deddf Darlledu 1990 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Ofcom ynghylch radio masnachol analog (FM ac AM) lleol, yn ogystal â dyletswydd benodol ynghylch pob gwasanaeth lleol rydyn ni'n ei drwyddedu. Y ddyletswydd gyffredinol ydy bod yn rhaid i ni wneud popeth y gallwn ei wneud i sicrhau bod ystod o wasanaethau amrywiol yn cael eu darparu⁴. Pan fyddwn yn cynnal proses dyfarnu trwydded gystadleuol ac yn dewis yr enillydd, y ddyletswydd benodol ydy bod yn rhaid i'r drwydded a roddwn i'r enillydd gynnwys amodau priodol i sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth, fel yr oedd yn cael ei gynnig gan ddeiliad y drwydded wrth wneud y cais, yn cael ei gynnal drwy gydol cyfnod y drwydded⁵. Mae darpariaethau statudol ar gael hefyd ac mae'r rheini'n caniatáu i newidiadau gael eu gwneud i gymeriad y gwasanaeth yn ystod cyfnod y drwydded os caiff amodau penodol eu bodloni. Caiff cymeriad gwasanaeth pob gorsaf ei gofnodi mewn rhan o'r drwydded o'r enw'r Fformat.
- 2.2 Ynghyd â'r dyletswyddau hyn, mae'r gyfraith⁶ hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau lleol yn y ffordd rydyn ni'n credu sydd orau i sicrhau bod gorsafoedd radio masnachol analog lleol yn darparu'r canlynol:
- rhaglenni sy'n cynnwys deunyddiau lleol;
 - rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol
- i'r graddau (os o gwbl) y mae Ofcom o'r farn ei bod hi'n briodol, ac i ddarparu cyfarwyddyd ynghylch sut dylid bodloni'r gofynion statudol hyn.
- 2.3 Caiff 'deunydd lleol' ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth fel deunydd sydd o ddiddordeb penodol i'r rheini sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r fro (neu mewn rhan ohoni) lle caiff [gwasanaeth radio lleol penodol] ei ddarparu, neu i gymunedau penodol sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r fro honno (neu mewn rhan ohoni). Ymhellach, mae 'deunydd' yn cynnwys newyddion, gwybodaeth, deunydd llafar arall a cherddoriaeth.
- 2.4 Caiff 'rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol' eu diffinio yn y ddeddfwriaeth fel rhaglenni sy'n cael "eu gwneud yn llwyr neu'n rhannol mewn eiddo yn yr ardal neu'r fro lle caiff y gwasanaeth hwnnw ei ddarparu neu, os oes ardal gymeradwy ar gyfer y rhaglenni, yr ardal honno."
- 2.5 Wrth gyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â gwasanaethau radio masnachol lleol, rhaid i ni gydymffurfio â'n dyletswyddau cyffredinol sydd wedi'u nodi yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r rhain yn cynnwys ein dyletswydd i sicrhau bod ystod eang o

⁴ Adran 85(2)(b) Deddf Darlledu 1990

⁵ Adran 106(1) Deddf Darlledu 1990

⁶ Adran 314 Deddf Cyfathrebiadau 2003

wasanaethau radio ar gael ledled y DU a'r rheini (ar y cyfan) o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau⁷, yn ogystal â'n dyletswydd wrth gyflawni ein dyletswyddau i ystyried yr egwyddorion sy'n mynnu bod gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a'u bod ond yn targedu achosion lle mae angen cymryd camau gweithredu⁸.

Canllawiau lleolrwydd

- 2.6 Yn dilyn y Datganiad, mae'r canllawiau lleolrwydd wedi cael eu diwygio i gynnwys y disgwyliadau sylfaenol newydd canlynol o ran y nifer o raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol y dylai pob gorsaf leol eu darparu, pryd dylai'r rhaglenni hyn gael eu hamserlennu, a darpariaeth deunyddiau lleol:
- O ran gorsafoedd FM lleol sy'n darparu newyddion lleol yn rheolaidd drwy gydol y diwrnod, dylai'r rheini ddarparu o leiaf dair awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn yr ardal leol (neu'r ardal gymeradwy) bob diwrnod gwaith rhwng 6am a 7pm.
 - O ran gorsafoedd FM lleol sy'n darparu newyddion lleol amser brecwast a diwedd y prynhawn yn unig, dylai'r rheini ddarparu o leiaf chwe awr o raglenni sydd wedi cael eu gwneud yn yr ardal leol (neu gymeradwy) bob diwrnod gwaith rhwng 6am a 7pm.
 - O ran gorsafoedd y mae cymeriad eu gwasanaeth yn mynnu eu bod yn darparu gwasanaeth lleol, dylai'r rheini gynnwys, yn ogystal â'r lefel o newyddion lleol sydd wedi'i nodi yn ei Fformat, digon o ddeunydd lleol arall, yn unol â'r canllawiau i sicrhau cymeriad gofynnol y gwasanaeth.

Ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban

- 2.7 Mewn perthynas ag unrhyw orsaf radio fasnachol leol benodol, caiff rhaglen sydd wedi cael ei gwneud yn lleol ei diffinio (mewn statud) fel rhaglen sydd wedi cael ei gwneud mewn lleoliad yn yr ardal y mae'r orsaf yn darparu iddi, neu mewn lleoliad yn rhywle arall ond yn dal mewn ardal ehangach sy'n cynnwys ardal ddarparu'r orsaf. Mae'r ail fath o leoliad yn cael ei alw yn 'ardal gymeradwy' oherwydd mae'n rhaid i Ofcom gymeradwyo'r ardaloedd hyn (ar ôl ymgynghori). Cafodd y cysyniad o ardaloedd cymeradwy ei sefydlu yn 2010 i roi mwy o hyblygrwydd i orsafoedd ynghylch lle maen nhw'n gwneud eu rhaglenni. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod grwpiau radio masnachol mawr yn gallu lleihau nifer y stiwdios maen nhw'n eu gweithredu, a bod gorsafoedd sy'n eithaf agos yn ddaearyddol yn gallu rhannu rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol (ar yr amod ei bod hi'n dal yn bosibl ystyried bod yr allbwn yn berthnasol i wrandawyr lleol pob un o'r ardaloedd darlledu unigol).

⁷ Adran 3(2)(c) Deddf Cyfathrebiadau 2003.

⁸ Adran 3(3) Deddf Cyfathrebiadau 2003.

2.8 Mae ardal gymeradwy yn berthnasol i orsaf unigol, sy'n golygu bod modd i bob gorsaf leol, mewn theori, gael ardal gymeradwy wahanol. Yn y gorffennol, mae Ofcom wedi mabwysiadu dull gweithredu cymysg. I ddechrau, fe wnaeth gymeradwyo cyfres o ardaloedd fel bod gan bob gorsaf mewn ardal ddaearyddol wahanol yn y DU yr un ardal gymeradwy⁹. Ond, ar ôl hynny, fe wnaeth ganiatáu ardaloedd cymeradwy gwahanol ar gyfer rhai gorsafoedd (er enghraifft, mewn achosion lle'r oedd dwy neu ragor o orsafoedd wedi eu lleoli mewn mwy nag un o'r ardaloedd a oedd eisoes wedi'u cymeradwyo) mewn ymateb i geisiadau gan ddeiliaid trwydded.

2.9 Dyma'r ardaloedd sydd wedi'u cymeradwyo yng Nghymru¹⁰ a'r Alban ar hyn o bryd:

- Glasgow a De-orllewin yr Alban
- Caeredin a'r Gororau
- Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Gorllewin Cymru
- De Cymru

Nid yw Ofcom wedi cymeradwyo ardal(oedd) ar gyfer gogledd yr Alban.

2.10 Caiff yr ardaloedd cymeradwy presennol hyn eu dangos yn Ffigur 8 yr Ymgynghoriad Cyntaf.

Yr Ymgynghoriad Cyntaf

2.11 Yn ein Hymgynghoriad Cyntaf, fe wnaethon ni gynnig newid yr ardaloedd cymeradwy hyn i'r ardaloedd newydd canlynol:

- un ardal gymeradwy ar gyfer 'De'r Alban' a fyddai'n cynrychioli cyfuniad o ardaloedd cymeradwy 'Glasgow a De-orllewin yr Alban' a 'Caeredin a'r Gororau';
- ardal gymeradwy newydd 'Gogledd yr Alban';
- un ardal gymeradwy ar gyfer Cymru gyfan a fyddai'n cynrychioli cyfuniad o ardaloedd cymeradwy 'Gogledd a Chanolbarth Cymru', 'Gorllewin Cymru' a 'De Cymru'.

2.12 Caiff yr ardaloedd newydd arfaethedig hyn eu dangos yn Ffigur 11 yr Ymgynghoriad Cyntaf ac, at ei gilydd, fe gawson nhw eu dylunio i gyd-fynd â rhanbarthau ITV. Cafodd hynny ei wneud ar y sail bod y fframwaith hwn eisoes wedi ennill ei blwyf ar gyfer darparu rhaglenni darlledu ar lefel is na'r DU a'i fod yn fframwaith y mae cynulleidfaoedd a hysbysebwyrr yn weddol gyfarwydd ag ef.

2.13 Dywedon ni y byddai ardaloedd cymeradwy mwy o faint yn rhoi mwy o ryddid i ddeiliaid trwydded bennu lle i osod eu stiwdios a gwneud eu cynnwys, ac y byddai'r rhyddid hwn yn golygu bod modd i grwpiau radio sy'n berchen ar nifer o drwyddedau yn yr un rhanbarth

⁹ Yr unig eithriadau i hyn oedd Llundain Fwyaf a gogledd yr Alban. Byddai'n rhaid i unrhyw orsafoedd yn yr ardaloedd hyn ofyn i Ofcom gymeradwyo ardal fesul achos.

¹⁰ Ar gyfer nifer fach o drwyddedau lleol yng Nghymru, mae Ofcom wedi cymeradwyo ardal 'bwrpasol' sy'n wahanol i'r ardaloedd sydd wedi'u rhestru yma.

roi mwy o adnoddau at wneud rhaglenni a llai at gostau “brics a mortar” cynnal stiwdios lleol ar wahân.

- 2.14 Yn gyffredinol, roedden ni'n credu bod y cynigion hyn yn ffordd briodol a chymesur o weithredu er mwyn diogelu cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau radio lleol. Roedden ni'n credu hynny ar y sail y byddai disgwyl o hyd i unrhyw orsafoedd y mae eu Fformatau yn mynnu eu bod yn lleol o ran cymeriad ddarparu digon o ddeunydd lleol (hy deunydd rhaglenni sy'n berthnasol yn lleol, fel deunydd am deithio, digwyddiadau ac ati), yn ogystal â newyddion lleol, i gadw'r cymeriad lleol hwn, ni waeth o le y daw eu rhaglenni.
- 2.15 Fodd bynnag, ar ôl ystyried y dadleuon diwylliannol ac ieithyddol a gyflwynwyd yn rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gwreiddiol, yn ogystal â chynghor gan Bwyllgorau Cynghori Ofcom ar gyfer Cymru a'r Alban, penderfynon ni ym mis Hydref 2018 y byddem yn lansio'r Ail Ymgynghoriad, a oedd yn nodi cynigion diwygiedig ar gyfer ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban.
- 2.16 Mae Adran nesaf y datganiad hwn yn nodi beth oedd y cynigion diwygiedig hyn, beth ddywedodd y rhai a ymatebodd i'r Ail Ymgynghoriad, a'r hyn a benderfynon ni yng nghyswllt yr ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban.

Aseiad o'r effaith ac aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- 2.17 Roedd yr Ymgynghoriad Cyntaf yn asesu effeithiau posibl yr ardaloedd cymeradwy arfaethedig yng Nghymru a'r Alban yr ydyn ni nawr wedi penderfynu eu cymeradwyo. Nid oes unrhyw beth sydd wedi'i godi yn yr ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyntaf na'r Ail Ymgynghoriad wedi achosi i ni newid ein safbwynt yng nghyswllt yr aseidiadau effaith hyn.
- 2.18 Wrth i ni benderfynu ar yr ardaloedd cymeradwy yng Nghymru, rydyn ni wedi rhoi ystyriaeth briodol i Safonau Iaith Gymraeg Ofcom ar Lunio Polisiâu, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad cydymffurfio. Mae'r safonau llunio polisiâu yn berthnasol ar yr adeg pan fyddan nhw'n cael effaith dim ots lle caiff y penderfyniad polisi ei wneud. Nid ydyn ni'n disgwyl y bydd unrhyw un o'r newidiadau i'r ardaloedd cymeradwy yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3. Yr ymgynghoriad a'r casgliad

Yr hyn a gynigiwyd yn yr Ail Ymgynghoriad

- 3.1 Dyma oedd ein cynigion diwygiedig ar gyfer ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban:
- cadw'r ardaloedd cymeradwy presennol 'Glasglow a De-orllewin yr Alban' a 'Chaeredin a'r Gororau' yn ne'r Alban;
 - cadw'r sefyllfa bresennol lle nad oes unrhyw ardaloedd cymeradwy yng ngogledd yr Alban;
 - cadw'r ardal gymeradwy 'Gogledd a Chanolbarth Cymru' bresennol;
 - cymeradwyo ardal 'De Cymru' newydd a fyddai'n cynnwys yr ardaloedd cymeradwy presennol, sef 'De Cymru' a 'Gorllewin Cymru'.
- 3.2 Cafodd yr ardaloedd cymeradwy arfaethedig diwygiedig hyn eu dangos yn Atodiad 3 yr Ail Ymgynghoriad.

Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

- 3.3 Roedd y farn wedi'i rhannu rhwng (i) y darlledwyr radio masnachol a'u corff masnach, Radiocentre, a oedd yn chwyrn yn erbyn unrhyw ymgais i gynyddu nifer yr ardaloedd arfaethedig yn yr Ymgynghoriad Cyntaf neu i leihau maint yr ardaloedd hyn; (ii) tri rhanddeiliad gwleidyddol yng Nghymru a oedd yn gwrthwynebu ein cynigion diwygiedig oherwydd y gwrthwyneb (hy, bod y ddwy ardal arfaethedig yng Nghymru yn dal yn rhy fawr); a (iii) nifer fach o randdeiliaid eraill (pob un ond un yn yr Alban) a oedd o blaid ein cynigion diwygiedig.

Dadleuon cyffredinol a godwyd

- 3.4 Dywedodd Radiocentre y dylem ni ailystyried ein cynigion, a dychwelyd at gael un ardal gymeradwy ar gyfer Cymru gyfan a newid i un ardal gymeradwy ar gyfer yr Alban gyfan. Dyma oedd eu rhesymau dros hyn:
- ar sail resymegol, mae ein cynigion i dychwelyd at ardaloedd cymeradwy llai yng Nghymru a'r Alban yn anghyson â'r achos rydyn ni wedi'i gyflwyno yn ein Datganiad ar gyfer symud ein dull rheoleiddio oddi wrth reoleiddio stiwdios lleol (fel procsi ar gyfer darparu cynnwys lleol) at roi mwy o ffocws ar ddarparu allbwn sy'n berthnasol yn lleol. Felly, roedd hefyd yn anghyson â'r penderfyniadau roedden ni eisoes wedi'u gwneud ar ardaloedd cymeradwy yn Lloegr a Gogledd Iwerddon;
 - roedd ein penderfyniad i ymgynghori ymhellach yn seiliedig ar nifer fach iawn o ymatebion anghynrychioliadol ac nid oedd yn cael ei ategu gan unrhyw dystiolaeth newydd;

- bydd ardaloedd cymeradwy llai yng Nghymru a'r Alban yn ychwanegu baich rheoleiddiol ar orsafoedd radio masnachol yn y gwledydd hynny, sydd eisoes yn wynebu costau darlledu uwch a referniw is na gorsafoedd yn Lloegr.

Ardaloedd cymeradwy yn yr Alban

- 3.5 Mewn perthynas â'n cynigion diwygiedig ar gyfer yr Alban yn benodol, roedd saith ymateb (pob un gan gwmnïau radio masnachol) yn gwrthwynebu, ac roedd pedwar ymateb (gan Bwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban, Llywodraeth yr Alban, Stuart McDonald AS a chyflwynydd radio llawrydd) o blaid.
- 3.6 Dywedodd y darparwr gwasanaethau radio masnachol mwyaf yn yr Alban, Bauer Media, mai ef yw'r unig ddarparwr yn yr Alban y byddai ein cynigion yn effeithio arno. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith mai ef yw'r unig gwmni sy'n dal trwyddedau radio masnachol lleol ar hyn o bryd yn ein hardaloedd cymeradwy arfaethedig (hy, Glasglow a De-orllewin yr Alban a Chaeredin a'r Gororau) yn ogystal ag yng ngogledd yr Alban, lle roedden ni wedi cynnig peidio â chymeradwyo unrhyw ardaloedd.
- 3.7 Roedd Bauer Media yn gwrthwynebu ein cynigion yn chwyrn, ar y sail eu bod yn anghyson â'n penderfyniadau ar ardaloedd cymeradwy yn Lloegr, ac oherwydd y gallent gael effaith negyddol ar hyfywedd economaidd ac allbwn gorsafoedd yn yr Alban. Yn benodol, dywedon nhw: "nid yw'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng gwahanol rannau o'r Alban yn fwy na'r rheini yn yr Ardaloedd Cymeradwy yn Lloegr", a "mae mynnu ein bod ni'n cadw stiwdios lleol ledled y wlad yn golygu na all yr arian gael ei fuddsoddi mewn cynnwys o'r Alban".
- 3.8 Fe wnaethon nhw gyflwyno tri dewis, ac roedd un o'r rheini yn awgrymu ein bod ni'n cymeradwyo'r ddwy ardal sydd wedi'u nodi yn yr Ail Ymgynghoriad, ond yna'n gadael i orsafoedd "gyd-leoli a rhannu ledled yr Alban er mwyn sicrhau mwy o gynnwys o'r Alban". Y ddau ddewis arall yr oedden nhw'n eu ffafrio oedd cael un ardal gymeradwy ar gyfer yr Alban gyfan, neu, os nad, cael ardaloedd cymeradwy sy'n berthnasol i ogledd a de'r Alban (hy, fel y cafodd ei gynnig yn yr Ymgynghoriad Cyntaf).
- 3.9 Fe wnaeth Global Radio, sy'n darparu dau wasanaeth FM yn yr Alban (Heart yn yr Ardal Ganolog a Smooth yn Glasgow¹¹), hefyd dynnu sylw at yr hyn roedden nhw'n ei ystyried yn anghysondebau rhwng ein penderfyniad yn y Datganiad i gymeradwyo ardaloedd mwy yn Lloegr a'n cynnig yn yr Ail Ymgynghoriad i gadw ardaloedd llai yn yr Alban (ac yng Nghymru), gan ddweud "nid ydym yn credu bod y dadleuon diwylliannol na'r dadleuon ieithyddol sydd wedi'u cyflwyno yn fwy perthnasol i ranbarthau Cymru a'r Alban nag y maen nhw ledled yr ardaloedd cymeradwy newydd mwy yn Lloegr". Ychwanegon nhw: "drwy gyfyngu ar faint yr ardaloedd [cymeradwy] yn [yr Alban a Chymru], rydych chi'n

¹¹ Mae prif frand arall Global, sef Capital, hefyd ar gael ar FM ledled yr Ardal Ganolog, ond o dan drwydded sy'n cael ei dal gan Communicorp UK.

cyfyngu ar allu darlledwyr i fod yn hyblyg o ran y ffordd maen nhw'n darparu orau ar gyfer eu cynulleidfaedd.”

- 3.10 Fe wnaeth pedwar o’r gweithredwyr radio masnachol llai yn yr Alban¹² gyflwyno ymatebion a oedd wedi’u geirio’n debyg iawn, pob un ohonyn nhw'n gwrthwynebu ein cynigion diwygiedig yn chwyrn. Hefyd, roedd Nation Broadcasting, cwmni sydd ond wedi ymuno â’r farchnad radio masnachol yn yr Alban yn ddiweddar ond sy'n weithredwr sydd wedi hen ennill ei blwyf yng Nghymru (mae rhagor o fanylion isod), hefyd yn gwrthwynebu ein cynigion diwygiedig yn chwyrn.
- 3.11 Dyma oedd y prif ddadleuon a gafodd eu cyflwyno gan yr ymatebwyr hyn:
- Byddai ein cynigion diwygiedig yn lleihau hyblygrwydd gorsafoedd lleol yn yr Alban (oherwydd byddent yn cael eu gorfodi i gadw stiwdios yn hytrach na defnyddio technoleg newydd i wasanaethu ardaloedd lleol gwahanol), a byddai hyn yn bygwth eu hyfywedd.
 - Byddent yn golygu bod gorsafoedd yn yr Alban (yn enwedig y rhai yng ngogledd yr Alban, lle roeddem yn cynnig peidio â chymeradwyo unrhyw ardaloedd) dan anfantais o’u cymharu â gorsafoedd mewn rhannau eraill o’r DU a gorsafoedd newydd digidol-yn-unig.
 - Nid yw’r gwahaniaethau diwylliannol rhwng ardaloedd lleol gwahanol yn yr Alban yn fwy nac yn fwy arwyddocaol na’r gwahaniaethau rhwng ardaloedd lleol gwahanol yn Lloegr sydd yn yr un ardal gymeradwy.
- 3.12 Yn yr un modd â rhanddeiliaid radio masnachol eraill, roedd hi’n llawer gwell ganddyn nhw ddynodi’r Alban gyfan fel un ardal gymeradwy.
- 3.13 Roedd y dadleuon allweddol a gyflwynwyd o blaid ein cynigion diwygiedig yn bennaf yr un fath â’r rheini a gyflwynwyd i’r Ymgynghoriad Cyntaf a wnaeth achosi i ni ddiwygio ein cynigion (a, mewn tri o’r pedwar achos, yr un ymatebwyr oedd wedi’u cyflwyno).
- 3.14 Fe wnaeth yr ACS ailddatgan ei gefnogaeth ar gyfer cael ardaloedd cymeradwy ar wahân i ran orllewinol a rhan ddwyreiniol yr Alban, ar y sail bod gan bob ardal “gynulleidfaedd arwyddocaol ac unigryw”. Pwysleisiodd Llywodraeth yr Alban ei bod yn credu na fyddai cynnwys sy’n cael ei wneud yn Glasgow yn cyfrif fel cynnwys ‘sydd wedi cael ei wneud yn lleol’ yng Nghaeredin oherwydd nad yw cynulleidfaedd yn credu bod ardal ganolog yr Alban yn ardal ‘leol’. Mewn perthynas â gogledd yr Alban, er ei bod yn cytuno bod y cysylltiadau diwylliannol rhwng yr ardaloedd trwydded gwahanol yn debygol o fod yn gyfyngedig, roedd Llywodraeth yr Alban yn cydnabod bod economeg radio masnachol yn fwy heriol yno. Awgrymodd y byddai’n derbyn y byddai un ardal gymeradwy ar gyfer gogledd yr Alban yn briodol i sicrhau bod “y cydbwysedd cywir yn cael ei daro rhwng hyfywedd masnachol a’r gwaith o gynnal gwasanaethau unigryw ar gyfer ardaloedd gwahanol”.

¹² Central FM, New Wave Media, DC Thomson a Waves Radio.

- 3.15 Fe wnaeth Stuart McDonald AS, a oedd, fel yr ACS a Llywodraeth yr Alban, wedi ymateb i'r Ymgynghoriad Cyntaf, groesawu ein cynigion diwygiedig, gan ddweud, "er ei bod hi'n dal yn bosibl dadlau bod yr ardaloedd hyn yn rhy fawr, ac nad ydyn nhw'n ystyried natur unigryw lleoliadau yn yr ardaloedd, rwy'n cytuno â'r cynnig i gadw ardaloedd cymeradwy llai a chydabod natur unigryw Gogledd yr Alban."
- 3.16 Hefyd, fe wnaethon ni ystyried ymateb cefnogol arall, ond cafodd cynnwys hwnnw ei gyflwyno yn gyfrinachol.

Ardaloedd cymeradwy yng Nghymru

- 3.17 Mewn perthynas â'n cynigion ar gyfer Cymru yn benodol, dim ond un ymateb – gan Bwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom ('PCC') – oedd yn amlwg o blaid ein cynigion diwygiedig. Roedd pump o ymatebwyr eraill yn gwrthwynebu ein cynigion, a hynny oherwydd rhesymau cwbl wahanol. Roedd tri aelod o Gynulliad Cymru yn gwrthwynebu ein cynigion diwygiedig oherwydd, yn eu barn nhw, roedd y ddwy ardal arfaethedig yn dal yn rhy fawr. Fe wnaeth y ddau gwmni radio masnachol sydd, rhyngddynt, yn gweithredu/berchen ar y rhan fwyaf o orsafoedd radio masnachol yng Nghymru – Global a Nation Broadcasting – wrthwynebu ar y sail bod yr ardaloedd yn rhy fach (hy, y dylid cael un ardal ar gyfer Cymru gyfan yn hytrach na dwy ardal).
- 3.18 Fe wnaeth Bwrdd Cynghori Cymru, Ofcom (PCC) bwysleisio'r farn yr oedd wedi dod iddi o'r diwedd ar ôl yr ymgynghoriad cyntaf, sef, ni fyddai caniatáu i raglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol ac sy'n cael eu darparu gan orsafoedd yng ngogledd Cymru gael eu gwneud yng Nghaerdydd (a fyddai un ardal gymeradwy ar gyfer Cymru gyfan, fel y cynigir yn yr Ymgynghoriad Cyntaf, yn ei alluogi), "ni fyddai hynny'n gwasanaethu buddiannau gwrandawyr yng ngogledd Cymru", ar y sail bod "gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol rhwng rhannau gogleddol a deheuol Cymru".
- 3.19 Fe wnaeth Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i ddweud, "er bod y newidiadau sydd nawr yn cael eu cynnig yn mynd i'r afael â'n pryderon yn rhannol", eu bod nhw'n dal yn credu y dylid cael dwy ardal gymeradwy yn ne Cymru – y dwyrain a'r gorllewin – yn hytrach na chael dim ond yr un rydyn ni'n ei chynnig yn yr Ail Ymgynghoriad (mewn geiriau eraill, y sefyllfa bresennol). Y rheswm am hyn yw bod y Pwyllgor yn credu bod y posibilrwydd o ganoli cynhyrchu, a allai ddeillio o leihau nifer yr ardaloedd cymeradwy, yn debygol o gael effaith niweidiol ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith (gan fod y gwaith cynhyrchu yn debygol o symud o ardaloedd sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg i ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg mor amlwg).
- 3.20 Roedd Lee Waters, yr Aelod Cynulliad ar ran Llanelli, hefyd yn gwrthwynebu ein cynigion diwygiedig. Ond, fel y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, roedd hyn oherwydd ei fod yn credu y dylid cael ardaloedd cymeradwy ar wahân o hyd ar gyfer rhannau gorllewinol a dwyreiniol de Cymru er mwyn diogelu'r canolfannau cynhyrchu radio lleol presennol yn Abertawe, ger ei etholaeth ef (yr oedd yn pryderu y byddent yn cael eu cau er mwyn canolbwyntio ar ganolfannau sydd wedi cael eu canoli yng Nghaerdydd). Roedd

hefyd yn credu y bydd un ardal gymeradwy i dde Cymru “o bosibl yn golygu lleihad sylweddol yn y cynnwys gwirioneddol leol a fyddai’n cael ei wasanaethau i fy etholaeth, a ledled Cymru”. Dywedodd bod hyn “yn amlwg yn fygythiad i newyddiaduraeth leol ”

- 3.21 Fe wnaeth Vaughan Gething, Aelod Cynulliad arall (De Caerdydd a Phenarth), rannu’r un safbwynt â’i gyd-weithwyr yn y Cynulliad. Roedd yn credu y byddai ein cynigion diwygiedig yn cael effaith negyddol ar gynnwys lleol, gwaith lleol a newyddiaduraeth leol. Hefyd, fe wnaeth fynegi pryder ynghylch y ffaith nad oedd hi’n ymddangos bod unrhyw orsafoedd radio lleol llai yng Nghymru wedi gwneud sylw. Fodd bynnag, nid yw’n glir at ba orsafoedd yr oedd yn cyfeirio atyn nhw gan fod Nation Broadcasting, sy’n berchen ar y rhan fwyaf o’r trwyddedau FM lleol ‘llai’ yng Nghymru, wedi ymateb i’r ddau Ymgynghoriad.
- 3.22 Fel y nodir ym mharagraff 3.9, fe wnaeth Global Radio, sy’n darparu pedwar gwasanaeth FM yng Nghymru (Heart ledled de Cymru, a Capital yn ardal Caernarfon, arfordir gogledd Cymru a Wrecsam¹³) a dau wasanaeth AM (Smooth yng Nghaerdydd/Casnewydd a Wrecsam), bwysleisio’r anghysondebau amlwg rhwng ein penderfyniad yn y Datganiad i gymeradwyo ardaloedd mwy yn Lloegr a’n cynigion yn ein Hail Ddatganiad i gadw ardaloedd llai yng Nghymru (ac yn yr Alban), gan ddweud, “nid ydyn ni’n credu bod y dadleuon ieithyddol na’r rhai diwylliannol a gyflwynwyd yn fwy perthnasol i ranbarthau’r Alban a Chymru nag ydynt ledled yr ardaloedd cymeradwy newydd mwy yn Lloegr”. Ychwanegon nhw: “drwy gyfyngu ar faint yr ardaloedd [cymeradwy] yn [yr Alban a Chymru], rydych chi’n cyfyngu ar allu darlledwyr i fod yn hyblyg o ran eu ffordd orau o ddarparu ar gyfer eu cynulleidfaoedd.”
- 3.23 Fe wnaeth Nation Broadcasting, sy’n dal chwe thrwydded FM leol ¹⁴, yn ogystal â buddiannau mewn amblecsau DAB a gwasanaethau rhaglenni digidol-yn-unig, yng Nghymru, bwysleisio llawer o’r pwyntiau a gafodd eu gwneud gan Radiocentre a’r cwmnïau radio masnachol llai yn yr Alban a’u hymatebion, fel sy’n cael eu hamlinellu uchod. Mewn perthynas â Chymru yn benodol, roedd Nation yn dadlau bod amodau eithaf heriol y farchnad (fel sy’n cael ei ddangos gan y ffaith mai Cymru oedd â’r refeniw masnachol lleol lleiaf y pen o’r boblogaeth o blith unrhyw wlad yn y DU) yn awgrymu na ddylai gorsafoedd lleol gael eu cyfyngu’n ormodol gan reoliadau, a bod yr achos sy’n cynnig bod Cymru yn un ardal gymeradwy yn “llethol”.

Dadansoddiad a chasgliad

- 3.24 Yn y Datganiad, dywedon ni bod rhoi’r hyblygrwydd i orsafoedd radio masnachol lleol leihau nifer y rhaglenni sy’n cael eu gwneud yn lleol y maen nhw’n eu darlledu, yn ogystal â rhoi’r hyblygrwydd iddyn nhw ddewis ble maen nhw’n gwneud y rhaglenni, gan barhau i fynnu eu bod yn darparu ‘cymeriad y gwasanaeth’ drwy ddarparu’r nifer briodol o ddeunydd lleol, yn ddull gweithredu priodol a chymesur i ddiogelu’r cynnwys lleol a

¹³ Mae Capital hefyd ar gael ar FM yn ardal Caerdydd/Casnewydd, ac mae Heart ar gael yng ngogledd a chanolbarth Cymru, ond o dan drwyddedau sy’n cael eu dal gan Communicorp UK.

¹⁴ Y trwyddedau lleol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro ac Abertawe, a thrwydded ranbarthol ar gyfer De Cymru (Nation Radio).

- chymeriad gwasanaethau radio lleol. Rydyn ni wedi dod i'r farn hon yn bennaf ar sail ymchwil cynulleidfaoedd a oedd yn dangos bod yr ardal lle mae rhaglenni'n cael eu gwneud yn llai o bryder i wrandawyr nac ansawdd a pherthnasedd yn lleol.
- 3.25 Roedd ein penderfyniad i lansio'r Ail Ymgynghoriad yn seiliedig ar bryderon a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid yng Nghymru a'r Alban na fyddai dull gweithredu o'r fath yn briodol yno o ystyried y gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol rhwng dinasoedd/ardaloedd. Ni chafodd dadleuon o'r fath eu cyflwyno mewn perthynas â dinasoedd/ardaloedd yn Lloegr.
- 3.26 Er bod yr un rhanddeiliaid hynny wedi pwysleisio eu barn mewn ymateb i'r Ail Ymgynghoriad, nid oes unrhyw un ohonynt wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth i ategu eu safbwynt. Yn benodol, ni chafodd dadleuon eu cynnig i nodi pam y dylai Ofcom ddefnyddio dull gweithredu gwahanol i bennu ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban i'r dull rydyn ni eisoes wedi penderfynu ei ddefnyddio i bennu ardaloedd cymeradwy yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn wir, fel y mae Radiocentre ac eraill wedi ei nodi, mae'r dadleuon a gafodd eu cyflwyno gan rhanddeiliaid o blaid ardaloedd cymeradwy llai yn bennaf yn seiliedig ar y gred bod yr ardal lle mae'r cynnwys yn cael ei wneud yn effeithio'n uniongyrchol ar leolrwydd y cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan orsafoedd radio masnachol lleol.
- 3.27 Fel y dywedon ni yn y Datganiad, er ein bod ni'n deall y safbwynt hwn, nid ydyn ni'n credu bod digon o dystiolaeth o blaid parhau i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer ymyrraeth reoleiddiol. I'r perwyl hwnnw, rydyn ni hefyd yn nodi nad oedd yr ymatebwyr a oedd o blaid ardaloedd cymeradwy llai yn anghytuno â chanfyddiadau ein hymchwil – lle nad oedd lleoliad cyflwynwyr yn cael ei weld mor bwysig â darparu deunydd lleol – nac yn anghytuno â'n dadansoddiad sy'n dangos bod datblygiadau mewn technoleg wedi ei gwneud yn haws nag erioed o'r blaen i gasglu a chynhyrchu deunydd lleol heb orfod bod yn yr ardal leol yn gorfforol.
- 3.28 Roedd rhai o'r cwmnïau radio masnachol a ymatebodd i'r Ail Ymgynghoriad yn dadlau y gallai ein cynigion diwygiedig gael effaith negyddol bosibl ar orsafoedd lleol yng Nghymru a'r Alban yn benodol, a hynny oherwydd yr economeg fwy heriol ar y cyfan sy'n wynebu'r gorsafoedd hynny. Fodd bynnag, nid ydym wedi rhoi unrhyw bwyslais ar y ddadl hon oherwydd mae amrywioldeb sylweddol rhwng gwahanol orsafoedd o ran eu hyfywedd economaidd. Ar ben hynny, er bod refeniw radio lleol y pen yng Nghymru yr isaf o blith gwledydd y DU, mae'r refeniw radio lleol y pen ar ei uchaf yn yr Alban.
- 3.29 Fe wnaeth Bauer Media awgrymu yn ei ymateb y dylem ni gymeradwyo'r ddwy ardal sydd wedi'u nodi yn yr Ail Ymgynghoriad, ond yna'n gadael i orsafoedd "gyd-leoli a rhannu ledled yr Alban er mwyn sicrhau mwy o gynnwys o'r Alban". Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu cymeradwyo'r Alban gyfan fel ardal gymeradwy ar gyfer unrhyw orsaf sy'n gofyn, yn gyfnewid am ymrwymiad gan yr orsaf honno i "ddarparu rhaglenni o'r Alban ac ar gyfer yr Alban drwy gydol y dydd yn ystod yr wythnos". O ystyried bod ein canllawiau lleolrwydd diwygiedig yn nodi'n glir ein bod ni'n fodlon y gall gorsafoedd ddarparu gwasanaeth lleol heb orfod ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ddarparu mwy na nifer fach o raglenni wedi cael eu gwneud yn lleol bob dydd, ac y dylai'r gorsafoedd hynny ddarparu digon o

- ddeunydd i gynnal eu cymeriad lleol, mae'n ymddangos i ni fod awgrym Bauer yn anghyson â'r canllawiau hyn, ac ni allwn weld sut y byddai'n gweithio yn ymarferol.
- 3.30 Gan ystyried yr holl wybodaeth uchod, rydyn ni wedi penderfynu cymeradwyo'r ardaloedd sydd wedi'u nodi yn ein Hymgyngoriad Cyntaf, hy
- dwy ardal gymeradwy yn yr Alban – gogledd yr Alban a de'r Alban;
 - un ardal gymeradwy – ar gyfer Cymru gyfan – yng Nghymru.
- 3.31 Mae'r ardaloedd cymeradwy hyn yn gyson â bwriad ein polisi gwreiddiol i gyd-fynd yn eang â rhanbarthau ITV, a hynny ar y sail bod hwn yn fframwaith sydd eisoes wedi ennill ei blwyf ar gyfer darparu rhaglenni darlledu ar lefel is na'r DU a'i fod yn fframwaith y mae cynulleidfaoedd a hysbysebwy'r weddol gyfarwydd ag ef. Rydyn ni'n credu eu bod yn cynrychioli canlyniad cymesur sy'n rhoi adlewyrchiad priodol o'r dystiolaeth berthnasol ac sy'n ystyried y ddwy gyfres o ymatebion i'r ymgynghoriadau.
- 3.32 Yn bwysig, er bod yr ardaloedd cymeradwy newydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i orsafoedd yng Nghymru a'r Alban ddarparu eu rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn lleol ymhellach o'r ardal y maen nhw'n darlledu iddi, mae ein canllawiau lleolrwydd diwygiedig yn nodi'n glir y dylai'r gwrandawyr ddal i ddisgwyl gwasanaeth sy'n berthnasol yn lleol gan orsaf radio fasnachol leol, er gwaethaf yr ardal lle caiff y rhaglenni eu darlledu ohoni. Yn wir, rydyn ni'n credu y dylai'r newidiadau hyn i'n rheoliad lleolrwydd gryfhau'r gallu i orsafoedd radio masnachol lleol ddarparu'r gwasanaethau sy'n berthnasol yn lleol y mae gwrandawyr yn eu disgwyl.
- 3.33 Bydd gorsafoedd sydd am wneud newidiadau i'r Fformat sydd yn gyson â'r ardaloedd cymeradwy newydd yn gorfod gwneud cais am newid Fformat er mwyn rhoi'r newidiadau hyn ar waith.
- 3.34 O dan y fframwaith statudol, nid oes raid i Ofcom ymgynghori ar gais i newid Fformat gan orsaf sy'n ymwneud dim ond â chais i ddarparu rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol o unrhyw leoliad yn yr ardal gymeradwy newydd sydd wedi'i nodi yn y ddogfen hon neu yn y Datganiad.
- 3.35 Ar hyn o bryd, mae'r canllawiau lleolrwydd yn nodi, "caiff unrhyw orsaf ddarparu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol o'r ardal y mae wedi'i thrwyddedu i'w gwasanaethu, neu o stiwdios unrhyw orsaf(oedd) eraill y mae eu hardal(oedd) trwyddedig hefyd yn yr ardal gymeradwy (sy'n cael ei alw yn 'gydleoli'). Mae'r ardal drwyddedig/ardaloedd trwyddedig y mae gorsaf yn cael darparu ei rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol ohoni/ohonynt yn cael eu pennu yn ei Fformat."
- 3.36 Er mai dyma yw ein dull gweithredu ers i ardaloedd cymeradwy gael eu cyflwyno am y tro cyntaf yn 2010, rydyn ni'n cydnabod nad yw'r cynllun statudol yn nodi bod yn rhaid i raglenni wedi'u gwneud yn lleol ond sydd ddim yn cael eu darparu o ardal drwydded gorsaf ddod o ardal drwydded gorsaf arall yn yr ardal gymeradwy berthnasol (yn hytrach nag o unrhyw le arall yn yr ardal gymeradwy).

- 3.37 Ochr yn ochr â chyhoeddi'r datganiad hwn, byddwn ni felly yn diwygio'r canllawiau lleolrwydd i wneud yn glir y gall deiliad trwydded, os yw'n awyddus i wneud hynny, ofyn i ddiwygio ei Fformat er mwyn cyfeirio at ei ardal gymeradwy (yn ogystal â'i ardal drwydded ei hun), yn hytrach na chael rhestr o ardaloedd sydd yn yr ardal gymeradwy.
- 3.38 Fel y gwnaethon ni ei nodi mewn ffordd debyg wrth gyhoeddi'r ardaloedd cymeradwy newydd yn Lloegr, er ein bod ni'n credu bod yr ardaloedd cymeradwy newydd yng Nghymru a'r Alban yn briodol oherwydd y rhesymau sydd wedi'u nodi yn y datganiad hwn, rydyn ni hefyd yn cydnabod y bydd rhai deiliaid trwydded am geisio cael cymeradwyaeth i ardal gymeradwy wahanol ar gyfer eu gorsafoedd, am resymau sy'n cynnwys buddiannau strategol a masnachol y grwpiau radio dan sylw.
- 3.39 Er mwyn osgoi amheuaeth, gall deiliad trwydded sydd am gael ardal gymeradwy wahanol ar gyfer ei orsaf gyflwyno cais i ni unrhyw adeg i gymeradwyo ardal newydd a phwrpasol. Yn unol â'r statud, bydd arnynt angen ymgynghori ar unrhyw geisiadau o'r fath cyn i Ofcom allu eu cymeradwyo. Bydd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried fesul achos, gan ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer maint yr orsaf, y cysylltiadau rhwng ardaloedd y gorsafoedd dan sylw, y pellter rhwng gorsafoedd a hyfywedd ariannol, fel sy'n cael ei nodi yn ein canllawiau presennol ar reoleiddio newidiadau i Fformat¹⁵.

Materion eraill a gafodd eu codi gan ymatebwyr

- 3.40 Roedd y gweithredwyr radio masnachol llai yn yr Alban (a Nation Broadcasting, sy'n gweithredu yn yr Alban ac yng Nghymru) i gyd yn dadlau y dylai Ofcom hysbysebu rhagor o drwyddedau radio masnachol lleol FM yn yr Alban, yn enwedig un yng Nghaeredin, ar y sail bod y cyfleoedd iddyn nhw ddatblygu yn gyfyngedig ar hyn o bryd ac oherwydd na fyddwn ni'n gwbl ddigidol am bum mlynedd arall o leiaf. Fe wnaeth yr ACS hefyd argymhell y dylai Ofcom hysbysebu trwyddedau radio masnachol FM newydd rhwng tair a phum mlynedd o hyd, ar yr amod bod deiliad y drwydded yn symud i DAB erbyn diwedd y cyfnod hwnnw.
- 3.41 Nid oes sbectrwm FM addas yn bodoli i alluogi trwydded radio masnachol lleol newydd ar gyfer Caeredin i gael ei hysbysebu, ond rydyn ni'n ystyried a fyddai hysbysebu trwyddedau radio masnachol FM newydd ar gyfer ardaloedd eraill yn yr Alban (y byddai sbectrwm addas yn fwy tebygol o fod ar gael ar eu cyfer) yn briodol, o ystyried bod mwy a mwy o gynulleidfaoedd radio yn symud o lwyfannau analog i lwyfannau digidol, a'r tebygolrwydd y bydd Ofcom yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau DAB ar raddfa fach yn fuan.
- 3.42 I gloi, fe wnaeth Radiocentre a Nation Broadcasting fynegi pryderon am y penderfyniad gan PCC i newid ei safbwynt ynghylch ein cynigion gwreiddiol.
- 3.43 Caiff Pwyllgorau Cynghori Gwledydd Ofcom eu gorfodi gan statud, gyda'r nod penodol o ddarparu cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau, mewn perthynas â materion cyfathrebu, unigolion sy'n byw yn eu gwlad¹⁶. Mae ymatebion PCC i'r Ymgynghoriad Cyntaf

¹⁵ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0024/87405/The-regulation-of-Format-changes.pdf

¹⁶ Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/48142/cylch_gwaith_pyg.pdf.

a'r Ail Ymgynghoriad wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan¹⁷; mae'r olaf yn egluro pam mae PCC wedi penderfynu newid ei safbwynt mewn perthynas â'r ardaloedd cymeradwy arfaethedig ar gyfer Cymru. Mae cofnodion y cyfarfod lle penderfynodd PCC newid ei safbwynt hefyd wedi'u cyhoeddi ar wefan Ofcom¹⁸.

¹⁷ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0026/117548/Advisory-Committee-for-Wales.pdf a https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/130922/Ofcom-Advisory-Committee-for-Wales.pdf

¹⁸ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/132556/Cofnodion-Cyfarfod-rhif-70-Pwyllgor-Cynghori-Cymru-26-Medi-2018.pdf

A1. Map o'r ardaloedd cymeradwy yng Nghymru a'r Alban



A2. Ardaloedd cymeradwy yn ôl trwydded

A2.1 Mae'r tabl canlynol yn dangos y trwyddedau radio masnachol lleol analog unigol sydd wedi'u cynnwys ym mhob ardal gymeradwy yng Nghymru a'r Alban.

*Yn nodi gorsaf AM. Ers 2010, mae gwasanaethau AM wedi gallu cyflwyno cais i Ofcom i gael gwared â'r holl ofynion cynnwys a chynhyrchu lleol o'u trwyddedau (er nad ydy pob un wedi gwneud hynny).

<p>Gogledd yr Alban (Nifer y trwyddedau: 18)</p>	<p>Aberdeen (Northsound 1) Aberdeen (Original 106) Arbroath a Carnoustie (Radio North Angus) Dundee (Wave FM) Dundee a Perth (Tay FM) Dundee a Perth* (Tay 2) Gairloch a Loch Ewe (Two Lochs Radio) Inverness (MFR2) Inverness (Moray Firth Radio) Kintyre, Islay a Jura (Argyll FM) Oban (Oban FM) Perth (Wave FM) Peterhead (Waves Radio) Pitlochry ac Aberfeldy (Heartland FM) Shetland Islands (SIBC) Skye a Lochalsh (Cuillin FM) Ullapool (Lochbroom FM) Ynysoedd y Gorllewin (Isles FM)</p>
<p>De'r Alban (Nifer y trwyddedau: 16)</p>	<p>Ayr* (West Sound) Ayr (West FM) Y Gororau (Radio Borders) Canol yr Alban (Capital) Canol yr Alban (Heart)</p>

	<p>Dumfries a Galloway (West Sound)</p> <p>Dumbarton (Your Radio)</p> <p>Caeredin (Forth 1)</p> <p>Caeredin* (Forth 2)</p> <p>Fife (Kingdom FM)</p> <p>Glasgow (Clyde 1)</p> <p>Glasgow* (Clyde 2)</p> <p>Glasgow (Smooth Radio)</p> <p>Glasgow a Gornllewin Canol yr Alban (Nation Radio)</p> <p>Helensburgh (Your Radio)</p> <p>Stirling a Falkirk (Central FM)</p>
<p>Cymru</p> <p>(Nifer y trwyddedau: 16)</p>	<p>Pen-y-bont ar Ogwr (Bridge FM)</p> <p>Caernarfon (Capital)</p> <p>Caerdydd a Chasnewydd (Capital)</p> <p>Caerdydd a Chasnewydd* (Smooth Radio)</p> <p>Sir Gaerfyrddin (Radio Sir Gâr)</p> <p>Ceredigion (Radio Ceredigion)</p> <p>Gogledd a Chanolbarth Cymru (Heart)</p> <p>Arfordir Gogledd Cymru (Capital)</p> <p>Sir Benfro (Radio Sir Benfro)</p> <p>De Cymru (Heart)</p> <p>De Cymru (Nation Radio)</p> <p>Abertawe (Swansea Bay Radio)</p> <p>Abertawe* (Swansea Sound)</p> <p>Abertawe (The Wave)</p> <p>Wrecsam a Glannau Dyfrdwy (Capital)</p> <p>Wrecsam a Glannau Dyfrdwy* (Smooth Radio)</p>